

## Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Caeryddd.

Diolch am y gwahoddiad i fod yn feirniad ffotograffiaeth i Eisteddfod Caerydd eleni. Y thema ar gyfer y gystadleuaeth oedd Cymuned. Roeddwn yn teimlo fod yn hwn yn thema addas gan bod ein cymunedau wedi cael ei chwalu yn y blyneddoedd diwethaf. Roeddwn yn gyffrous i weld pobl Caerydd yn dehongli eu cymuned gan ein bod wedi bod o dan glo am gyfnod a roeddwn yn meddwl fyse fe'n ddiddorol cyfnodi a potreadu yr hyn sydd yn digwydd nawr o fewn y gymuned heddi.

Yn anffodus siomedig yw'r nifer a'r safon o luniau sydd wedi cystadlu. Roedd blwyddyn diwethaf yn flwyddyn gyda popeth yn ail agor a'r rheolau yn newid pob hyn a hyn, roedd yn golygu fod bywyd yn fwy bisi ac efallai gan bod bywyd mor fisi mae'n anoddach pwylllo a chymryd amser i dynnu llun sydd yn berthnasol i'r thema. Mae hyn yn anffodus gan roedd yn gyfle i fynd allan i arsylwi ac i gymryd lluniau o'r gymuned newydd. Tuedd pobl y dyddiau yma yw cymryd llun cloi oddi ar ffôn gan ei fod yn gyfleus ac yn rhwydd yw defnyddio ond heb bwylllo a mesur trwy gofio'r pedwar elfen o ffotograffiaeth sef golau, lliw, cyfansoddiad a pwnc er hyn snap shots yw'r lluniau gystadleuaeth yma yn dueddol o fod.

### Cynradd

1af - Eva Uren - Llongyfarchiadau i Eva Uren dwi'n hoff o'r lliwiau'r cryf yn y llun yma. Llun sydd yn dangos bod artist wedi ei gwahodd mewn i gymuned yr ysgol i greu murlun ar y wal ac hefyd yn cofnodi'r gwaith celf hyfryd sydd ar y wal ac yna wedi cael ei paentio gan gymuned yr ysgol tybed?

### Uwchradd

1 Pysgodyn: Mae'r llun yma yn yn syml ond beth sy'n gwneud iddi sefyll mas o'r gweddill yw'r awgrym o ddirgel ac yn syth rydych yn cael teimlad cymuned y pysgotwyr. Trwy ond edrych y rhes o offer pysgota yna mae'n gadael i'r dychmyg llunio llun arall yn fy mhen o tybed beth mae'r pysgotwyr yn edrych fel, o'dyn nhw'n siarad a thrafod neu'n eistedd yn llonydd gyda'i gilydd. Beth arall sy'n dda am y llun yma yw'r gorwel mae'n hollol syth mae hyn yn bwysig mewn lluniau tirlun; bod y gorwel wastod yn syth. Llongyfarchiadau.

2il: TEBOT: Nid yw'n hawdd dal adar mewn lluniau mae angen bod yn hollol llonydd, distaw a chael yamera yn barod i dynnu'r llun heb codi ofn. Beth sy'n gret am y llun yma yw bod y cystadleuydd wedi mwy nag un aderyn ac yna rhoi'r teimlad o gymuned yn cwrdd i ga'l tamed o gino. Da iawn.

3ydd DRAENOG: Llun syml iawn o gymuned o ddefaid mewn cae ond mae'r defaid i gyd yn edrych syth at y camera felly da iawn am dal y moment yma.

### Agored:

1af: Lliwiau: Mae'r llun yma llawn lliw a dyfnder. Yn y cefndir mae'r cymylau'n ddramtig a'r mynydd yn gryf ac yna mae llinell y rhes o dai yn denu'r llygaid mewn i'r canol sydd yn dda iawn. Wrth edrych ar y llun yma rwy'n cael teimlad o falchder sydd yn eironig gan bod y gymuned yn dathlu a chegnofi y gymuned LGBTQ. Felly mae'n lun glyfar hefyd sydd felly'n haeddu y gwobr cyntaf. Llongyfarchiadau!

2il: GLYN: Llun panoramig o'r cwm sydd yn rhoi'r teimlad o edrych ar gymuned o bell, sy'n gallu rhoi'r argraff o deimlad tu allan o'r gymuned yn edrych mewn.

3ydd: ARFON: Llun syml o gymuned o hwyaid, mae'r lliwiau hydrefol yn lyfli ac mae'r cyfansoddiad yn dda gan ein bod dal i weld y coed yn gyfan yn y cefndir.